



ADRODDIAD GWERTHUSO



CEFNDIR

Gŵyl Fach y Fro, a drefnir gan **Fenter Iaith Bro Morgannwg**, yw dathliad blynyddol o'r Gymraeg a'r celfyddydau ar draws y sir. Mae mynediad am ddim yn sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau cyfres o berfformiadau gan rai o artistiaid amlycaf Cymru, yn ogystal â thalentau lleol - o fandiau ifanc i ysgolion a chlybiau cymunedol ar draws dau lwyfan bywiog, sydd wedi'u hamgylchynu gan stondinau bwyd, crefftau a gweithgareddau i blant a theuluoedd. Eleni cyflwynwyd elfennau newydd yn cynnwys pabell holi ac ateb cyffredinol **Hafan Iolo**, yn ogystal â pharti ôl-ŵyl mewn lleoliad gyferbyn a safle'r prif weithgareddau.

DROS 10,000 O YMWELWYR

**GŴYL AM DDIM
I DDATHLU'R GYMRAEG YN Y FRO**

**AM Y TRO CYNTAF -
PARTI AR ÔL YR WYL**

**20 O STONDINAU CREFFTAU,
BWYD A DIOD**

**HAFAN IOLO -
ARDAL HOLI AC ATEB NEWYDD**

**GLANFA GWYNFOR -
10 PERFFORMIAD CYMUNEDOL**

**GWEITHDAI DAWNS
A CHELF**

**ARDAL CHWARAE I
BLANT**

**LLWYFAN Y TRAETH -
16 SET BYW GAN ARTISTIAID AMLYCAF CYMRU**

Yn 2025, denwyd yn agos at 9,000 o gynulleidfa ac eleni gwelwyd nifer yr ymwelwyr yn gostwng ar ddiwrnod yr ŵyl ei hun ar Ddydd Sadwrn 16 Mai oherwydd tywydd llai ffafriol; a gwyddom yr effeithiodd gig Super Furry Animals yng Nghaerdydd ar faint y gynulleidfa hefyd.

Eleni drwy gydweithio â **Run 4 Wales** oedd yn trefnu **Ras 10K Ynys Y Barri** y diwrnod canlynol ar yr un safle, drwy rannu adnoddau a churadu rhaglen lawn o adloniant Cymraeg ar Lwyfan y Traeth, llwyddwyd i ymestyn ein cynulleidfa dros ddeuddydd a chyflwyno'r Gymraeg i dros 10 mil o bobl o amrywiol gefndiroedd diwylliannol, oedrannau a gallu ieithyddol.



YR WYL YN 2026

Prif ffocws yr Wyl i nifer yw **Llwyfan y Traeth**, ac eleni rhwng 11 y bore ac 8 yr hwyr ar y dydd Sadwrn gwelwyd 11 perfformiad byw – yn cynnwys **Sioe Cyw**, perfformiad a dehongliad newydd o gân gomisiwn y Fenter o waith **Caryl Parry Jones** “Plant y Fro” a detholiad ysbrydoledig o ganeuon Swyn y Gân gan ddisgyblion Ysgol Uwchradd Gymraeg Bro Morgannwg.

Dyma’r llwyfan ar gyfer perfformiadau gan rai o brif artistiaid Cymru yn cynnwys **Celt**, **Mei Gwynedd** a **Band Tŷ Potas**, **Daniel Lloyd** a **Mr Pinc**, **Aleighcia Scott**, **Taran**, **Pwdin Reis**, **Dadleoli**, **Penbleth**, **Paralel** ac **Adlais** (canlyniad gweithdai creu bandiau/ “Yn Cyflwyno” eleni).



Ar y dydd Sul, fel rhan o ddigwyddiad **Ras 10K Ynys y Barri**, lluniwyd rhaglen amrywiol o gerddoriaeth o’r prif lwyfan. Ymhlith y bandiau roedd **Mac**, **Tarddiad**, **Y Gerddorfa Ukulele** a **Paid Gofyn**; a chafwyd perfformiadau egniol gan y **Super Choir**, dawnsio creadigol gan Ysgol Uwchradd **Whitmore High** ac yn ymuno â ni am y tro cyntaf, Ysgol Gynradd **Palmerston**.

Arweiniwyd y llwyfan gan ddwy gyflwynwraig brofiadol – **Mirian Iwerydd** (DJ, BBC Radio Cymru) ac **Angharad Rhiannon** (Bro Radio).



YR WYL YN 2026

Mae **Glanfa Gwynfor** yn parhau mor boblogaidd ag erioed wrth i gannoedd heidio ar y dydd Sadwrn i fwynhau perfformiadau gan bob un o saith ysgol gynradd Cymraeg y Fro. Yn rhannu'r llwyfan eleni oedd **Côr ABC y Fro** a pherfformiadau arbennig o'r sioe stryd **Coblyn** gan **Kitsch & Sync Collective**, **Hijinx** a **Theatr Iolo**. Roedd y cynhyrchiad hwn yn gyd-gomisiwn rhwng Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, Eisteddfod Genedlaethol, Tafwyl a Gŵyl Fach y Fro.

YSGOL GYMRAEG SANT CURIG | YSGOL GYMRAEG GWAUN Y NANT
YSGOL GYMRAEG DEWI SANT | YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRO MORGANNWG
YSGOL GYMRAEG PEN Y GARTH | YSGOL GYMRAEG SANT BARUC
YSGOL GYMRAEG IOLO MORGANWG | KITSCH N SYNC



Datblygiad newydd ar gyfer 2026 oedd cyflwyno **Hafan Iolo**, ardal dan do oedd yn cynnig rhaglen lawn o weithdai, trafodaethau a sesiynau creadigol i blant ac oedolion fel ei gilydd. Ymhlith yr uchafbwyntiau eleni oedd:


Theatr Mewn Cymeriad, Pryd ar Dafod (yn recordio rhifyn arbennig o'u podlediad poblogaidd), **Gweithdy Llyfrau** gyda **Rolant Tomos**, **Sesiwn Holi** ac **Ateb** rhwng **Mirain Iwerydd** ac **Aleighcia Scott**, **Sgwrs Banel Dysgwyr** gyda **Helen Prosser** ac ardal bendoedig i blant i chwarae'n greadigol.

Am y tro cyntaf eleni hefyd cynhaliwyd "ôl-barti" gyda'r artist roc-reggae **Morgan Elwy** a'i fand yn **View 62**, lleoliad o fewn taflod carreg i safle'r ŵyl.



PARTNERIAID NEWYDD

Ceisiwyd ymestyn apêl cyffredinol yr ŵyl drwy gydweithio â phartneriaid newydd yn cynnwys **Trafnidiaeth Cymru** oedd wedi darparu trenau ychwanegol a phris gostyngol i deithwyr, **Bro Radio** a ddarlledodd gydol y dydd yn fyw ar eu tonfeddi ac fel soniwyd yn gynharach **Run 4 Wales** a alluogodd i'r ŵyl gyrraedd cynulleidfaoedd newydd yn ogystal â sicrhau gwerth am arian drwy rannu adnoddau ac isadeiledd.



R4W

bro radio

98.1&100.2fm
www.broradio.fm

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

FINISH GORFFEN
First runner: Y Rhedder cynaf
10:30 AM YR
Last runner: Y Rhedder Olaf
12:00 AM YR



Yn mynd i Wyl Fach y Fro neu'r ras Ynys y Barri?

Cyrraedd yno'n hawdd gyda thocyn Teulu TrC.
Mae 2 blant o dan 16 yn teithio am ddim gyda phob oedolyn.



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

GWYL FACH Y FRO

BARRY ISLAND 10K
10K YNYS Y BARRI

YNYS Y BARRI **BARRY ISLAND**

GWYL FACH Y FRO 2026

BARRY ISLAND 10K
16-05-2026 11am - 8pm
17-05-2026 10am - 4pm

CELT-ALEIGHCIA SCOTT
DANIEL LLOYD & MR PINC
MEI GWYNEDD & BAND Tŷ POTAS
TARAN-PWDIN REIS
DADLEOLI~PENBLETH~PARALEL~TARDDIAD
DAGRAU TÂN~PAID GOFYN~MAC
Y GERDDORFA UKULELE
YSGOLION BRO MORGANNWG & mwy!

BARRY ISLAND 10K
10K YNYS Y BARRI

Fuel the body, lift your soul, & celebrate our culture

www.menterbromorgannwg.cymru

VALE OF GLAMORGAN
R4W
MENTER IATH BRO MORGANNWG
Coleg Ceredigion
Craig Ceredigion
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CEFNOGAETH Y CYNGOR CELFYDDYDAU



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Trwy gais grant llwyddiannus gan **Cyngor Celfyddydau Cymru** gwirededwyd yr elfennau creiddiol canlynol.



- Sicrhau bod llawn llwyfan o berfformiadau gafaelgar gan rai o artistiaid amlycaf Cymru yn ogystal â rhai llai profiadol gan adlewyrchu amrywiaeth oedrannau, cefndiroedd ethnig yn ogystal â chymbwysedd rhywedd naturiol.
- Gweithdai creu bandiau Cymraeg newydd o dan arweiniad **Mei Gwynedd**; a bu cyfle i Adlais o Ysgol Uwchradd Bro Morgannwg berfformio ar **Lwyfan y Traeth**.



- Ail ymweld â'r gân **"Plant y Fro"** a gomisiynwyd yn wreiddiol gan **Caryl Parry Jones** drwy gynnal cyfres o weithdai dawnys dan arweiniad **Elan Isaac** a gweithdai celf i greu props a gwisgoedd dan ofal **Helen Moseley** gyda'r cyfan yn arwain at berfformiad gweledol gafaelgar ar y diwrnod gan 300 o blant y sir.
- Trefnu **"ôl-ddigwyddiad/parti"** am y tro cyntaf mewn lleoliad masnachol ar Ynys y Barri
- Ffilmio a chynhyrchu fideo o gyfweiliadau gyda artistiaid yng nghwmni gohebydd lleol ifanc newydd, **Owain-Rhys Perkins-Rudge**, a'i rannu ar draws cyfryngau cymdeithasol.



ARDAL CHWARAE/PLANT

Eleni clustnodwyd yr ardal chwarae i blant rhwng **Glanfa Gwynfor** a'r stondinau masnachol er mwyn ein galluogi i gynnig opsiynau amrywiol o weithgarwch. Yn ogystal, gyda'r gofod newydd **Hafan Iolo** o dan do, roedd cyfle i gynnal sesiynau celf yn ogystal a chyflwyniadau gan griw **Cyw** a **Mewn Cymeriad**.



STONDINAU

Y tu hwnt i'r gerddoriaeth, roedd cyfle i flasgu amrywiaeth o gynnyrch gwerthwyr bwyd stryd leol, yn gweini blasau traddodiadol a chyfoes Cymru; a chreffftwyr a gweithwyr llawrydd annibynnol yn cynnig nwyddau wedi'u gwneud â llaw, a nifer o stondinau yn cynrychioli noddwyr a chyfeillion.

ADDYSGWYR CYMRU | BOX BURGER | BUDDUG | CANCER RESEARCH CYMRU
CANT A MIL | COLEG CAERDYDD A'R FRO | CYNGOR BRO MORGANNWG
CYNGOR TREF Y BARRI | DILLAD GWALIA CLOTHING | DRAGON BARS
DYSGU CYMRAEG Y FRO | FABLAS ICE CREAM | GM NOTEBOOKS
HOGI HOGI HOGI | MENTER IAITH BRO MORGANNWG
MUDIAD YSGOLION MEITHRIN | OES GAFR ETO | THE ARTISAN COOK
URDD GOBAITH CYMRU



CYFATHREBU

Wrth geisio ymestyn yr apel o ganlyniad i'r cydweithio â Run 4 Wales, roedd hi'n bwysig pwysleiso dau ddiwrnod, un lleoliad, ond bod rhywbeth ar gael i bawb (a chadw gwerthoedd unigryw'r ddau ddigwyddiad yr un pryd).

Defnyddiwyd sawl cyfrwng i godi proffil ac i hyrwyddo'r Wyl yn cynnwys baneri wedi eu gosod o amgylch Ynys y Barri ac mewn llefydd amlwg eraill ynghanol y dref a chlwydi ysgolion, posterï a thaflenni cyhoeddusrwydd mewn ysgolion, llyfrgelloedd a mannau cyhoeddus arall.

Roedd llawer o waith cyfathrebu Run 4 Wales gan gynnwys taflenni wedi eu dosbarthu i bob tŷ ar hyd taith y ras, hefyd yn cyfeirio at **Gŵyl Fach y Fro**.



DATGANIADAU I'R WASG

Ryddhawyd datganiadau i'r wasg yn pwysleisio'r bartneriaeth strategol newydd gyda Run4 Wales.

SYLW AR GYFRYNGAU TORFOL YN CYNNWYS

S4C - eitem ar raglen Heno yn dangos uchafbwyntiau'r ŵyl, gafodd yn ei dro ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol

BBC Radio Cymru - hysbysebion a sylw cyson ar draws nifer o raglenni

BBC Radio Wales

Erthygl yn y Dinesydd



CYFRYNGAU CYMDEITHASOL


Dros y flwyddyn a aeth heibio cyflwynwyd strategaeth gyffredinol gan y **Fenter** i gynyddu nifer y dilynwyr sy'n ymwneud â ni ar draws ein cyfryngau cymdeithasol, yn bennaf **Facebook** ac **Instagram**.

Er bod **Facebook** yn parhau i berfformio fymryn yn well, gwelir bod y cynnydd mwyaf mewn dilynwyr bellach ar **Instagram**.


Dros benwythnos yr Ŵyl cyflogwyd person ymroddedig i ofalu am gyfrifon cyfryngau cymdeithasol penodol **Gŵyl Fach y Fro** er mwyn hyrwyddo ac ymateb i sylwadau.

Wrth edrych ar ganlyniadau'r **Fenter** o ddechrau Ebrill tan yr Ŵyl gwelwyd cynnydd ar draws pob mesur safonol (insights) Meta gyda **Facebook** yn cynyddu 331% ac **Instagram** 720%

CANLYNIADAU FACEBOOK



CANLYNIADAU INSTAGRAM



CYFRYNGAU CYMDEITHASOL/PARHAD

Cynlluniwyd y brif ymgyrch ddigidol ar **Facebook** ac **Instagram** y **Fenter** dros gyfnod o 2 fis er mwyn sicrhau sylw cyson, amrywiol (boed yn negeseuon am artistiaid unigol, amserlenni neu ddulliau teithio ayb).

Dyma brif negeseuon y cynllun cyfathrebu didgiol.

Mis	Dyddiad	Bore	Prynhawn	Nos
Mawrth	3	Cyhoeddi Prif Artistiaid 🎤		
	9 & 13	Dyddiad Cau Stondinau 📅		
	16	2 fis i fynd ⌚		
	21	Fideo cyffredinol 🎬		
	28	Menywod Mewn Miwsig ⭐		
Ebrill	3	Pasg Hapus 🐣		
	18	4 wythnos i fynd ⌚		
	26	Hafan Iolo + After Party 🏰🌟		
	29	Llwyfan y Traeth (Sadwrn a Sul) 🎵		
	30	Glanfa Gwynfor a Hafan Iolo 🎭👤		
Mai	2	Pythefnos i Fynd ⌚		Fideo Artistiaid 🎬
	3		Sioe Coblyn 🗣️	
	4	Manylion 3 Ardal Perfformio		After Party 🌟
	5	Arlwywyr 🍴		Noddwyr 🤝
	6	Teithio ar drên Trafnidiaeth Cymru 🚆		Mewn Cymeriad (Hafan Iolo) 🎭👤
	7	Pleidleisio am hoff artist 🗳️		
	8	Canlyniad Etholiad (Dadleoli) 🗳️	Fideo ymarfer dawns + celf Plant y Fro 🎨🧸	Gweithdy Llyfrau (Hafan Iolo) 📖
	9	Daniel Lloyd 🎤		Celt 🎸
	10	Pwddin Reis 🍰	Dysgwyr (Hafan Iolo) 👥	Mei Gwynedd 🎵
	11	Aleighcia Scott 🎤	Cyw 🐣	Taran ⚡
	12	Penbleth 🎵	Dadleoli 🎤	Ymarfer Band “yn cyflwyno” 🎸
	13	Paid Gofyn (Sul) 🎵	Pryd ar Dafod (Hafan Iolo) 📅	Paralel 🎸
	14	Tarddiad (Sul) 🎵	Tocyn Teithio Trafnidiaeth Cymru 🚆	Cerddorfa Ukulele (Sul) 🎵
	15	Mac (Sul) 🎸	Amserlen Pob Ardal 📅	Fideo Vox Pop Artistiaid 🎬
	16	Bore da o’r Barri 📅	After Party 🌟	Amserlen Dydd Sul 📅

NODDWYR A PHARTNERIAID


Gwireddwyd y digwyddiad eleni diolch i nawdd hael gan ein Prif Bartner – **Coleg Caerdydd a'r Fro** a’n Prif Noddwr – **Cyngor Tref y Barri**. Soniwyd eisoes am y cyd-weithio hyfryd gyda **Run 4 Wales**, ac mae cefnogaeth **Llywodraeth Cymru**, **Cyngor Celfyddydau Cymru** a **Chyngor Bro Morgannwg** yn chwarae rhan allweddol wrth drefnu gŵyl o’r fath.



ADBORTH

Cynhaliwyd arolwg ar ôl yr Wyl drwy Google.

Roedd 87.5% o'r gynulleidfa wedi mynychu o'r blaen sy'n awgrymu bod 12.5% o'r gynulleidfa yn ymweld â'r Wyl am y tro cyntaf.



Roedd 62.5% yn perthyn i oedran 26-40; 25% i oedran 41-55 a 6.3% rhwng 18-25 a 56+ yr un. Roedd 56.3% wedi nodi eu profiad cyffredinol wrth fynychu **Gŵyl Fach y Fro**.

Ar waetha'r tywydd siomedig roedd 56.5% wedi treulio hanner diwrnod neu ran fwyaf o'r diwrnod ar y safle.



Ymhlith yr uchafbwyntiau oedd y **bandiau**, yr **awyrgylch**, y **dathlu**, y **stondinau**, **balchder yr ysgolion** wrth iddyn nhw berfformio, **sgwrs am ddysgu Cymraeg**, POPETH!

Eleni cyflwynwyd ardal holi ac ateb amlbwrpas **Hafan Iolo** gyda 25% o'r gynulleidfa wedi blasu rhai o'r sesiynau. O'r rhai fynychodd roedd 56.3% o'r farn bod y sesiynau'n dda neu'n ardderchog. Wrth ddechrau cynllunio ar gyfer 2027, byddwn yn ystyried yr ymateb gan ambell berson di-gymraeg nad oedden nhw wedi deall beth oedd yn digwydd yno.

Yn gyffredinol y sylwadau am **Hafan Iolo** yn cynnwys:

“addasiad newydd gwych”

“joio Pryd ar Dafod”


“Syr Ifan ab yn wych”

“hoffwn weld mwy o eitemau y flwyddyn nesaf”

ADBORTH/PARHAD

Roedd 57.1% yn meddwl bod darpariaeth **Bwrlwm/plant** yn ardderchog, ac 87% yn meddwl bod perfformiadau'r ysgolion ar **Lanfa Gwynfor** hefyd yn ardderchog.

Ychydig dros draean o'r gynulleidfa welodd y cynhyrchiad **Coblyn**



Y prif artistiaid o ran poblogrwydd oedd:

- 1 – Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg (43.8%)
- 2 – Dadleoli a Aleighcia Scott (31.3%)
- 3 – Daniel Lloyd a Mr Pinc (25%)

Ar waetha sylw cynhwysfawr ar draws y cyfryngau, roedd 43.8% o'r gynulleidfa wedi clywed am yr ŵyl ar lafar, sy'n awgrymu na ddylid dibrisio rhwydwaith ysgolion a chylchoedd eraill wrth ymgysylltu'n effeithiol.

Wrth edrych ymlaen at 2027 gofynnwyd pa artistiaid dylid eu hystyried ar gyfer y flwyddyn nesaf ac ymhlith yr enwau roedd **Bwncath, Eden, Bronwen, No Good Boyo, Elin Fflur** ac Ysgolion yr ardal.

Awgrymiadau eraill sut i wella'r ŵyl yn cynnwys creu map mawr, cyflwyno mwy o stondinau, mwy o weithgareddau plant, mwy o ystyriaeth i bobl ag anableddau.



PIGION

HER CANU GYDA HOFF ARTIST

Unwaith eto eleni ymatbeodd sawl ysgol i'r alwad o ddysgu caneuon rhai o'r prif artistiaid, ac waetha'r glaw tua diwedd y prynhawn, braf oedd gweld y disblyion ifanc yn ymateb mor frwdfrydig wrth fwynhau perfformiadau gan Daniel Lloyd a Celt.

DIOLCHIADAU

Mae ein diolch yn ddiffuant i Mirian Iwerydd (BBC radio Cymru) ac Angharad Rhiannon am arwain Llwyfan y Traeth (yn ogystal â'i eitemau cyson yn cyfeirio at yr Ŵyl ar ei rhaglen ar Bro Radio). Yn ardal Glanfa Gwynfor roedd Llinos Lee, Rhys Angell Jones, Gwenllian Grigg a Bethan Knox yn arwain yn gelfydd.

Diolch hefyd i'r holl wirfoddolwyr am helpu cadw trefn yma a thraw gydol y dydd, i staff Menter Iaith Bro Morgannwg a Menter Caerdydd am eu brwdfrydedd ac am weithio y tu hwnt i'w dyletswyddau arferol, i Gyngor Bro Morgannwg am eu parodrwydd i rannu strwythurau stondinau ac i 2Can Productions am gyd-lunio'r elfennau technegol a goruchwyllo'r holl is-gwmnïau sy'n darparu adnoddau o bob math.

CRYNHOI

Ar waetha siom y tywydd, rydym yn hyderus o'r adborth a thrafodaethau gyda'n partneriaid bod galw mawr a pharch at yr Ŵyl. Bydd cydweithio strategol a chreadigol gyda phartneriaid eraill yn allweddol wrth gynnig digwyddiad cyhoeddus Cymraeg cynhwysol fel rhan o galendr prif ddigwyddiadau'r Fro yn 2027.





MENTER IAITH BRO MORGANNWG, YR HEN LYFRGELL, YR AIS, CAERDYDD, CF10 1BH

Rhif Elusen: 1179555
Rhif Cwmni: 08867706

WWW.MENTERBROMORGANNWG.CYMRU

